Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2020 – **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1963A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni chymerir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Rheoli adnoddau ariannol 18

Cynllunio gweithredol 23

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth). Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Digwyddodd gwaith Asesu Strwythuredig eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achosir gan bandemig COVID-19. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fframwaith o gamau gweithredu i helpu i baratoi'r system ar gyfer yr hwrdd disgwyliedig o achosion COVID-19. Roedd y fframwaith yn cynnwys rhoi'r gorau i weithgarwch wedi'i gynllunio difrys a llacio targedau a threfniadau monitro ar draws y system iechyd a gofal. Cyflwynwyd trefniadau ariannu brys hefyd i hwyluso'r ystod eang o gamau gweithredu yr oedd eu hangen i ymateb ar frys i bandemig COVID-19.

3 Cytunwyd ar gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer 2020-21 a'r rheiny'n cael eu hategu gan ganllawiau chwarterol yn nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio'r ymateb i gam nesaf y pandemig, ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, a symud tuag at adferiad graddol gwasanaethau rheolaidd.

4 Cynlluniwyd ein gwaith yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig i sicrhau dull digon pragmatig i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i'r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19[1]. Mae ffocws allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol[2] lle'r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol yn enwedig dan yr amgylchiadau cyfredol.

5 Mae'r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio strategol: i ategu'r ymateb parhaus i'r pandemig gan daro cydbwysedd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

[1] Cafodd ein gwaith ei gydlynu gydag adolygiad cyflym y tîm Archwilio Mewnol o lywodraethu sy'n cynnwys profi pellach ar reolaethau allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn.

[2] Mae'r argymhellion blaenorol i'w gweld yn ein hadroddiad ar gyfer 2019.

6 Mae'r Ymddiriedolaeth yn lletya tri sefydliad, Technoleg Iechyd Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Ceir trefniadau gwahanol o ran lletya a llywodraethu o fewn yr Ymddiriedolaeth ar gyfer pob sefydliad. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Nid ydym wedi adolygu'r trefniadau hyn ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru na Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

# Negeseuon allweddol

7 Ar y cyfan, canfuom fod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i weithredu'n effeithiol trwy gydol COVID-19. Mae'n meithrin diwylliant cryf o lywodraethu da'n seiliedig ar dryloywder, cydweithio a her adeiladol. Fe addasodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau llywodraethu, ansawdd, diogelwch a rheoli risgiau'n gyflym ac mae'n parhau i ganfod cyfleoedd i wella.

8 Mae'r Ymddiriedolaeth a'i Bwrdd wedi gweithio'n dda o dan bwysau i addasu trefniadau llywodraethu. Rhennir busnes yn effeithiol rhwng y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae busnes y Bwrdd yn dryloyw ac yn cael ei gyfleu'n dda. Mae gwybodaeth yn llifo'n effeithiol o dîm gweithredol yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd ac mae'r Bwrdd yn amlwg yn ganolog i brosesau penderfynu. mae aelodau'r Bwrdd yn darparu trefniadau craffu da a cheir parch rhwng aelodau'r Bwrdd â'i gilydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu a mireinio'i threfniadau llywodraethu a chorfforaethol a chwilio am ffyrdd o wella. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i sicrhau gwasanaethau diogel, o ansawdd ac i reoli risgiau. Mae'n parhau i ddarparu gwybodaeth dda i sicrhau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau ynghylch ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau.

9 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli adnoddau ariannol yn gweithio'n dda. Cyflawnodd ei dyletswyddau ariannol i fantoli'r cyfrifon dros flwyddyn ariannol 2019-20 a'r cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ragweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon yn 2020-21 er bod mantoli'r cyfrifon yn seiliedig ar dybiaeth y bydd cyllid ychwanegol ar gael i gwrdd â chostau parhaus ymateb i COVID-19. Mae ganddi reolaethau ariannol cryf ac mae'n darparu gwybodaeth eglur am berfformiad ariannol a risg ar gyfer craffu gan y Bwrdd.

10 Aeth yr Ymddiriedolaeth ati'n gyflym i ddatblygu cynlluniau gweithredol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'n mynd ati'n barhaus i adnabod yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r cynlluniau ac asesu goblygiadau anhysbys y pandemig. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnabod risgiau i roi ei chynlluniau ar waith, gan gynnwys goblygiadau ailgychwyn gwasanaethau ar gyfer adnoddau. Mae'r Bwrdd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynlluniau ac wedi cytuno ar drefniadau i fonitro cynnydd. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ennyn ymgysylltiad rhanddeiliaid i ddatblygu ei chynlluniau a'u rhoi ar waith ond byddai o fudd iddi pe bai'n ymgysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned i oleuo cynlluniau yn y dyfodol.

11 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn seiliedig ar ein gwaith yn 2020 ond rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer gwella drwy'r adroddiad hwn. Byddwn yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y rhain ac argymhellion ers 2019 sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith fel rhan o'n gwaith yn 2021.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

12 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried gallu'r Ymddiriedolaeth i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn a hithau hefyd yn gorfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a achosir gan y pandemig. Fe wnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol.

13 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi addasu trefniadau llywodraethu a'r modd y mae'n rheoli risgiau ac wedi cynnal systemau sicrwydd yn ystod ei hymateb i gyfnod cyntaf y pandemig a'i bod yn gwneud cynnydd tuag at welliannau tymor hwy.**

### Cynnal busnes yn effeithiol

#### Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth addasu trefniadau llywodraethu i gynnal tryloywder, cefnogi prosesau penderfynu ystwyth a sicrhau craffu effeithiol yn ystod yr ymateb i COVID-19

##### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw

14 Er nad oedd yn gallu cynnal ei gyfarfodydd yng ngŵydd y cyhoedd, fe symudodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gyflym ac yn effeithiol i gyfarfodydd rhithwir ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau[3]. Ers mis Mawrth 2020, mae cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd wedi bod yn cael eu cyhoeddi o fewn ychydig ddiwrnodau i gyfarfodydd ar y cyfan. Er gwaethaf bwriadau da, ni chafodd cofnodion rhai o gyfarfodydd y Bwrdd eu cyhoeddi nes eu bod wedi'u cadarnhau ddwy neu dair wythnos ar ôl y cyfarfod. Ym mis Mehefin 2020, fe dreialodd yr Ymddiriedolaeth drefn i wneud recordiad fideo o gyfarfod y Bwrdd, ac fe ffrydiodd gyfarfod y Bwrdd yn fyw am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2020.

15 Canfu ein harsylwadau ar gyfarfodydd y Bwrdd fod cyfarfodydd wedi bod yn effeithiol gyda'r rhai a oedd yn bresennol yn ymlynu wrth foesau da ar gyfer cyfarfodydd, a chyfleoedd yn cael eu darparu i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Ceir cynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd problemau gyda systemau TG.

16 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid, gan gynnwys cwrdd yn wythnosol ag aelodau'r fforwm partneriaeth lleol a chynrychiolwyr undebau llafur. Mae eiriolwyr cleifion o'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi mynychu pob un o gyfarfodydd y Bwrdd ac wedi darparu eu barn ynglŷn â newidiadau i wasanaethau. Yn ystod cyfnod cychwynnol yr ymateb i'r pandemig, fe

[3] Fe gwblhaodd yr Ymddiriedolaeth yr argymhelliad a wnaed gennym yn 2018 i sicrhau bod papurau'r Bwrdd ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd y Bwrdd.

roddwyd llawer o newidiadau i wasanaethau ar waith heb lawer o gyfle i drafod y newidiadau gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned.

17 Yn yr adroddiad ar ein hasesiad strwythuredig yn 2019, fe wnaethom nodi newidiadau cadarnhaol i gryfhau a chynyddu capasiti'r strwythur uwch reolwyr. Er bod y trefniadau hyn yn dal i ymwreiddio ar yr adeg y cydiodd y pandemig, mae cyfrifoldebau gweithredol yn ystod y cyfnod ymateb wedi bod yn eglur a chytbwys.

18 Ym mis Mawrth 2020, rhoddodd yr Ymddiriedolaeth ei chynllun digwyddiadau mawr a'i strwythur rheoli digwyddiadau ar waith i sicrhau proses benderfynu ystwyth a chyflym yn ystod y pandemig. Dan arweiniad y Prif Weithredwr, y Grŵp Rheoli Aur oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau strategol. Roedd y Grŵp Rheoli Aur yn cael ei gefnogi gan bum grŵp rheoli ategol. Roedd y Grŵp Rheoli Arian yn cael ei reoli gan y Prif Swyddog Gweithredol ac yn gyfrifol am benderfyniadau tactegol. Roedd Grwpiau Rheoli Efydd ar wahân ar gyfer Canolfan Ganser Felindre, Gwasanaeth Gwaed Cymru, gwasanaethau cymorth a phencadlys yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol. Roedd gan bob grŵp rheoli atebolrwydd diffiniedig ac roeddent yn cael gwybodaeth a chymorth gan grwpiau clinigol ategol. Cytunodd y Bwrdd ar fframwaith penderfynu a phroses asesu effeithiau ategol i bennu pa grŵp rheoli ddylai fod yn gyfrifol am benderfyniadau unigol. Roedd y fframwaith hefyd yn nodi'r broses ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio materion a oedd yn codi. Cyfarfu pob grŵp rheoli'n ddyddiol i ddechrau, er bod mynychder wedi gostwng i ddwywaith yr wythnos ym mis Ebrill, gan adlewyrchu aeddfedrwydd gweithgarwch paratoadol yr Ymddiriedolaeth. Ar ddiwedd mis Mai 2020, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth dynnu'r strwythur rheoli digwyddiadau yn ôl a chafodd y cyfrifoldebau eu hymgorffori fel rhan o drefniadau rheoli gweithredol safonol.

19 Fe gomisiynodd yr Ymddiriedolaeth 'gelloedd' i sicrhau bod elfennau trawsbynciol a thyngedfennol o'r ymateb i COVID-19 yn cael eu rheoli mewn modd amserol, cymesur a chydgysylltiedig ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan[4]. Arweinir pob cell gan swyddog gweithredol. Unwaith y bydd allbynnau bwriadedig wedi'u cyflawni neu'r systemau a sefydlwyd gan y gell wedi'u gwreiddio mewn trefniadau presennol, bydd celloedd unigol yn cael eu tynnu'n ôl. Mae gwaith y celloedd wedi cael ei drefnu a'u ffocws wedi cael ei bennu gan egwyddorion a ddatblygwyd ar gyfer Canolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru sy'n nodi'r ffyrdd newydd o weithio, gweithgarwch a ataliwyd dros dro a ffyrdd o asesu cleifion a lliniaru risgiau.

20 Fel a ddigwyddodd mewn blynyddoedd blaenorol, mae ein harsylwadau ar gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau wedi canfod bod swyddogion gweithredol yn

[4] Sefydlwyd saith cell ar ddiwedd mis Ebrill 2020: ansawdd a diogelwch; cyfarpar diogelwch personol; gweithdrefnau diwedd oes a marwolaeth; y gweithlu; digidol; cynllunio; a gwybodaeth/perfformiad. Ym mis Mai 2020, sefydlwyd dwy gell ychwanegol: cadw pellter cymdeithasol; a phrofi ac olrhain.

mynd ati'n weithredol i geisio cyfleoedd i gynnwys Aelodau Annibynnol y Bwrdd ac wedi cynnal perthynas agored, dryloyw.

## Mae trefniadau llywodraethu diwygiedig wedi cefnogi craffu gan y Bwrdd yn ystod yr ymateb i COVID-19

21 Ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Bwrdd y dylai ganolbwyntio ar gynnal trosolwg a chraffu effeithiol. Mae cyfarfodydd y Bwrdd wedi bod yn cael eu cynnal bob mis, sy'n gynnydd o'i gymharu â'u cynnal bob yn ail fis. Cafodd fforymau pwyllgorau/partneriaeth y Bwrdd eu hatal dros dro am gyfnod cychwynnol o chwe mis, ac eithrio'r canlynol:

- mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi bod yn cwrdd bob mis ac yn bwriadu gwneud hynny tan fis Medi 2020, pan fydd rheoleidd-dra cyfarfodydd yn cael ei adolygu;
- mae'r Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Archwilio Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi bod yn cwrdd fel a amserlennwyd yn flaenorol ond fe newidiodd dyddiadau cyfarfodydd i ymateb i'r newidiadau mewn amserlenni ar gyfer adrodd ar gyfrifon terfynol; ac
- mae'r Pwyllgor Craffu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser wedi parhau i gwrdd fel a amserlennwyd yn flaenorol i wneud penderfyniadau ynghylch llwybrau critigol ar gyfer y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser[5].

22 Craffwyd ar yr amrywiad gofynnol i Reolau Sefydlog y Bwrdd ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 21 Ebrill 2020 a'r Bwrdd ar 30 Ebrill 2020. Cafodd cyfrifoldebau craffu, sicrwydd a phenderfynu ar gyfer y pwyllgorau hynny a ataliwyd dros dro eu dirprwyo i'r Bwrdd neu bwyllgor a oedd yn dal i eistedd.

23 Fe wnaeth y tîm llywodraethu corfforaethol adolygu rhaglen fusnes y pwyllgorau. Fe wnaeth yr adolygiad ystyried pa eitemau ddylai gael eu rheoli/tracio a'u dyrannu i bwyllgor a oedd yn dal i eistedd, cael eu cau trwy weithredu gan y cadeirydd y tu allan i'r pwyllgor, neu gael eu hatal dros dro a'u gosod yn y log adferiad. Cofnod ffurfiol o eitemau y bwriedir parhau â hwy ar adeg fwy priodol yw'r log adferiad ac fe'i cyflwynwyd i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Mehefin, cadarnhawyd fod eitemau ar y log adferiad yn dechrau cael eu dwyn yn ôl i mewn i reolaeth weithredol gyda threfniadau craffu priodol. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth log canolog o weithgareddau gohiriedig allanol hefyd ac fe'i darparodd ar gyfer y Bwrdd.

[5] Nod y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yw ateb y galw cynyddol am ofal canser ac ymateb i'w gymhlethdod cynyddol a darparu rhagor o ofal yn nes at adref. Mae ychydig o feysydd o fewn y rhaglen, a'r un allweddol o blith y rhain yw adeiladu canolfan ganser newydd.

24 Cafodd rhaglenni busnes y Bwrdd a phwyllgorau eu diwygio i ganolbwyntio ar faterion sy'n dyngedfennol i'r busnes. Parhawyd i wneud y defnydd gorau o amser cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau trwy ychwanegu eitemau ar yr agenda at yr agenda gydsynio[6], lle y bo'n briodol gwneud hynny. Mae aelodau'r Bwrdd wastad yn cael y cyfle i symud eitemau oddi ar yr agenda gydsynio os ydynt yn teimlo'i bod yn angenrheidiol trafod yr eitem. Hefyd, mae papur briffio'r Bwrdd wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth gefndir am eitemau a drafodir yn y Bwrdd, i'w gwneud yn bosibl i gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ganolbwyntio ar graffu a herio. Cafodd aelodau'r Bwrdd bapurau briffio wythnosol ym mis Ebrill (gyda mynychder yn cael ei leihau i bapurau briffio pythefnosol ym mis Mai) gan sicrhau bod yr holl Aelodau Annibynnol yn cael eu briffio'n llawn ynghylch ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r pandemig a'r materion a risgiau cysylltiedig. Mae'r Cadeirydd wedi bod yn cynnal cyfarfodydd beunyddiol gyda'r Prif Weithredwr, ac wedi bod yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur yn rheolaidd i gyfrannu barn y Bwrdd at drafodaethau. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau briffio rheolaidd gyda'r Aelodau Annibynnol mewn perthynas â'r ymateb i'r pandemig.

25 Yn ystod ein gwaith maes canfuom ddealltwriaeth gyson am y trefniadau diwygiedig ymhlith aelodau'r Bwrdd. Canfuom hefyd fod craffu a herio effeithiol yn digwydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Mae cofnodion cyfarfodydd yn darparu crynodeb manwl o drafodaethau'r Bwrdd a phwyllgorau, gan gynnwys adroddiadau llafar.

26 Fe ymunodd dau Aelod Annibynnol â'r ymddiriedolaeth ar ddiwedd 2019 ac maent wedi datblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder yn gyflym. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio cymeradwyaeth i estyn tymor un Aelod Annibynnol y mae ei benodiad ar fin dod i ben yn hydref 2020. Sefydlwyd trefniadau addas i gyflenwi yn ystod absenoldeb Aelodau Annibynnol i sicrhau bod cworwm yn cael ei gynnal er gwaethaf rheoleidd-dra cynyddol cyfarfodydd. Mae Aelodau Annibynnol wedi bod yn rhagweithiol a hyblyg o ran eu dull gan gynnwys mynychu cyfarfodydd mwy mynych ac ystyried peth wmbredd o wybodaeth.

## Mae gwybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei chael yn cefnogi craffu

27 Mae papurau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau wedi bod yn cael eu darparu cyn cyfarfodydd, gan ganiatáu digon o amser ar gyfer craffu. Gan bod yr amgylchedd yn newid yn gyflym, ar achlysuron roedd papurau'n cael eu diwygio ar fyr rybudd cyn cyfarfodydd. Fodd bynnag, roedd cadarnhad ar lafar o newidiadau'n cael ei ddarparu. Mae papurau cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n gryno ac yn llawn gwybodaeth, gan sicrhau bod y Bwrdd a phwyllgorau'n meddu ar yr wybodaeth ofynnol i wneud penderfyniadau. Mae sicrwydd gan bwyllgorau i'r

[6] Arfer yng nghyfarfodydd y Bwrdd sy'n grwpio busnes ac adroddiadau rheolaidd mewn un eitem ar yr agenda yw agenda gydsynio. Gellir cymeradwyo'r agenda gydsynio mewn un cam gweithredu, yn hytrach na chyflwyno cynigion ar bob eitem ar wahân.

Bwrdd wedi parhau i weithio'n dda trwy adroddiadau gan gadeiryddion pwyllgorau ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd.

28 Mae cyflwyniadau ar lafar gan swyddogion yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n dda iawn fel arfer, gyda chrynodebau eglur o wybodaeth sy'n aml yn gymhleth, a hwythau'n tynnu sylw at faterion allweddol a meysydd allweddol sy'n achosi pryder. Rydym wedi gweld dull tryloyw ac eglur o ddatgan ac ymdrin â gwrthdaro buddiannau.

29 Lle bu angen gweithredu gan Gadeiryddion, er enghraifft ar gyfer gwariant gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ddarpariaethau Cymru gyfan, megis Cyfarpar Diogelwch Personol, peiriannau anadlu a gwelyau, ceir log o'r penderfyniad, tystiolaeth o graffu gan Aelodau Annibynnol a chadarnhad wedi hynny gan y Bwrdd.

30 Mae logiau o benderfyniadau wedi cael eu creu a'u cynnal hefyd i gofnodi'r holl benderfyniadau gan y strwythur rheoli digwyddiadau, ac ar wahân i gofnodi gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19. Sefydlwyd log i dracio cydymffurfiaeth â chanllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â COVID-19. Mae'r logiau o wariant a deddfwriaeth wedi cael eu rhannu gyda'r Bwrdd ar gyfer nodi, ac felly hefyd grynodeb o bob penderfyniad a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur.

31 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diweddaru ystod o bolisïau mewn ymateb i COVID-19. Mae diwygiadau'n nodi'n glir beth yw'r trefniadau interim ar gyfer COVID-19, ac mae polisïau wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd neu bwyllgor. Ym mis Mehefin 22020, dywedodd yr Ymddiriedolaeth y byddai'n adolygu pob un o'r 150 o bolisïau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2020 i sicrhau bod pob un ohonynt yn dal i fod yn addas i'w ddiben yng nghyd-destun COVID-19. Bwriedir y bydd yr holl bolisïau a'u mecanweithiau cymeradwyo cysylltiedig yn cael eu hychwanegu at gofrestr grynhoi[7], gyda diwygiadau interim angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith.

## Mae'r Bwrdd yn dal i ddangos ymrwymiad i ddysgu a gwella'n barhaus

32 Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n parhau i ddarparu cyfle i fyfyrio ac adrodd yn ôl ar y modd y cynhaliwyd y cyfarfod. Mae'r Bwrdd wedi ystyried effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol diwygiedig ar gyfer busnes y Bwrdd a phwyllgorau yn ystod y pandemig. Yn hytrach na dychwelyd at drefniadau pwyllgorau cyn COVID-19, mae gan y Bwrdd gynlluniau i gymeradwyo strwythur pwyllgorau newydd, gwell a symlach ym mis Medi 2020 i'w roi ar waith ym mis Hydref 2020.

33 Yn fwy eang, roedd ar aelodau'r Bwrdd eisiau sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gallu dysgu o newidiadau sefydliadol cadarnhaol a wnaed yn ystod y pandemig a'u mabwysiadu. Ar adeg ysgrifennu, roedd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal sesiynau i

[7] Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi nodi'n flaenorol nad oedd ystorfa ganolog ar gyfer rheoli polisïau'r Ymddiriedolaeth a chynnal rheolaeth dogfen ar gyfer y polisïau hynny.

gofnodi a dysgu o'r ffyrdd o weithio a roddwyd ar waith gan y strwythur rheoli digwyddiadau a'r Bwrdd (rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020). Mae sawl thema wedi cael ei hadnabod, gan gynnwys eglurder gwell y cyfrifoldebau penderfynu, ystwythder prosesau penderfynu, gwella arferion pobl yn barhaus a gwell cysylltedd digidol. Lle y bo'n berthnasol, mae'r themâu hyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â phrosiectau gwella presennol, gan gynnwys integreiddio rhai swyddogaethau cymorth isadrannol a datblygiad parhaus arweinwyr a rheolwyr.

## Systemau sicrwydd

### Mae systemau sicrwydd wedi cael eu cynnal yn ystod y pandemig gan alluogi sicrwydd cryf ar gyfer y Bwrdd a'i bwyllgorau

#### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi addasu ei system rheoli risgiau'n effeithiol i adnabod a rheoli risgiau newydd sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac mae'n gwneud cynnydd da tuag at welliannau tymor hwy

34 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2019, fe wnaethom amlygu bod y Bwrdd wedi cytuno ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd interim[8] ym mis Tachwedd 2019. Fe wnaethom argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth gwblhau a chyflymu datblygiad Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd llawn gyda fframwaith rheoli risgiau cyfoes tanategol. Mewn adroddiadau blaenorol rydym hefyd wedi argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth safoni fformat ei chofrestrau risgiau amrywiol a sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni blaenoriaethau strategol yn cael eu cynnwys yn y gofrestr risgiau corfforaethol.

35 Ym mis Ionawr 2020, nododd yr Ymddiriedolaeth ei chynlluniau i gwblhau datblygiad Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, parodrwydd i dderbyn risg, y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r fframwaith rheoli risgiau erbyn mis Mehefin 2020. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i wneud cynnydd da drwy 2020, mae'r dyddiad cwblhau wedi cael ei estyn tan ddiwedd mis Hydref 2020 i ganolbwyntio ar lywodraethu mewn perthynas â COVID-19. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio wedi cael eu hysbysu'n gyson ynghylch y cynnydd hyd yma. Mae gwaith i ddatblygu templed newydd ar gyfer Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi parhau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adnabod risgiau strategol sydd wedi'u halinio â chynlluniau gweithredol a strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Y bwriad yw ychwanegu'r holl risgiau strategol a adnabuwyd at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gyda rheolaethau, ffynonellau

[8] Dogfen allweddol ar gyfer cofnodi ac adrodd ar y risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol, y rheolaethau y mae eu hangen i liniaru risgiau, ffynonellau sicrwydd, swyddogion gweithredol cyfrifol a threfniadau craffu gan bwyllgorau.

sicrwydd, cyfrifoldebau a threfniadau craffu gan bwyllgorau sy'n gysylltiedig â'r risgiau hynny. Bwriedir hefyd y bydd risgiau strategol cymhwysol yn cael eu hychwanegu at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

36 Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o'r holl risgiau gweithredol ar gofrestrau risgiau isadrannol ym mis Ionawr 2020. Fe wnaeth yr adolygiad hwn ystyried addasrwydd a chysondeb sgoriau risgiau, rheolaethau lliniarol a threfniadau uwchgyfeirio cyn mudo'r holl risgiau i fodiwl risgiau wedi'i uwchraddio yn Datix[9]. Mae gwaith yn mynd rhagddo i safoni cofrestrau risgiau isadrannol a rhai'r cyrff a letyir, ac i sicrhau bod trefniadau uwchgyfeirio'n gweithio fel sy'n ofynnol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu gwneud gwaith pellach i wella'r disgrifiad o risgiau ac eglurder rheolaethau lliniarol a ffynonellau sicrwydd (a'u heffeithiolrwydd) mewn cofrestrau risgiau, ac i sicrhau bod cofrestrau risgiau'n adlewyrchu gofynion y fframwaith rheoli risgiau newydd.

37 Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddiweddaru'r datganiad am barodrwydd i dderbyn risg gyda chanllawiau i gyd-fynd ag ef ynghylch sut i gymhwyso parodrwydd i dderbyn risg i gamau lliniarol ar gyfer rheoli risgiau gweithredol a strategol.

38 Mae'r broses o ddatblygu'r fframwaith rheoli risgiau'n rhedeg ochr yn ochr â'r gwaith i ddiweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r datganiad am barodrwydd i dderbyn risg. Bydd allbynnau cychwynnol pob maes gwaith yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a chan y Bwrdd yn ystod haf 2020, gyda chymeradwyaeth gan y Bwrdd yn yr arfaeth ar gyfer mis Hydref 2020. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried sut y bydd hyfforddiant rheoli risgiau'n cael ei gyflwyno i staff.

39 Mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau pendant am y trefniadau risgiau sy'n datblygu, ond mae'r gwaith a gwblhawyd hyd yma ynghyd â datblygiadau arfaethedig yn dynodi cyfeiriad teithio cadarnhaol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ailgychwyn gwaith i ddiweddaru'r fframwaith rheoli perfformiad a'r fframwaith llywodraethu ansawdd. Unwaith y byddant wedi'u datblygu, byddant yn cael eu dwyn ynghyd gyda'r fframwaith rheoli risgiau mewn fframwaith llywodraethu integredig trosfwaol.

40 Mewn ymateb i COVID-19, ym mis Ebrill 2020, fe gwblhaodd yr Ymddiriedolaeth asesiadau o effeithiau'r holl risgiau ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth i'w gwneud yn bosibl blaenoriaethu'r modd y rheolir risgiau tyngedfennol. Mae'r holl risgiau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol y byddai pwyllgor a oedd wedi'i atal dros dro yn ystod COVID-19 yn craffu arnynt fel arfer wedi cael eu mapio i bwyllgor sy'n dal i eistedd er mwyn i'r pwyllgorau hynny graffu arnynt. Cafodd nifer fach o risgiau eu hatal dros dro lle cafodd eu perthnasedd ei

[9] System hysbysu ynghylch digwyddiadau a rheoli risgiau ar y we a ddefnyddir gan sefydliadau gofal iechyd yw Datix.

ddisodli dros dro gan yr ymateb i COVID-19[10]. Mae risgiau newydd sy'n ymwneud â COVID-19 yn cael eu hamlygu. Rhwng mis Ebrill a mis Mai, cafodd risgiau tyngedfennol eu rheoli trwy'r strwythur rheoli ar gyfer rheoli digwyddiadau gyda threfniadau uwchgyfeirio priodol yn eu lle. Ers mis Mehefin, mae trefniadau safonol ar gyfer uwchgyfeirio at y Bwrdd Rheoli Gweithredol wedi bod ar waith. Mae unrhyw risg mewn perthynas â COVID-19 sydd â sgôr o 12+ yn cael ei huwchgyfeirio at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol[11] i gael ei hystyried gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi ymwneud yn helaeth â datblygu a goruchwylio dull yr Ymddiriedolaeth o reoli risgiau strategol a gweithredol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn craffu ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac yn ei herio.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal ffocws ar ansawdd a diogelwch gofynnol yn ystod COVID-19, gyda sicrwydd allweddol yn cael ei ddarparu ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

41 Ers mis Mawrth, mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi bod yn cael adroddiad diweddaru misol ar COVID-19 sy'n nodi'r datblygiadau diweddaraf a newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch hefyd wedi cael:

- adroddiadau Dangosfwrdd am gelloedd COVID-19 (ansawdd a diogelwch, Cyfarpar Diogelwch Personol, gweithdrefnau diwedd oes, y gweithlu, cynllunio, cadw pellter cymdeithasol a phrofi ac olrhain).
- crynodeb o benderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur pan oedd yn dal i gwrdd.
- adroddiadau amlygu am destunau sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch fel arfer, ond gydag addasiadau i ystyried ac adlewyrchu sicrwydd mewn perthynas â COVID-19.
- adroddiadau ansawdd a diogelwch newydd ar gyfer Canolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru a oedd yn rhoi sylw i ddiweddariadau a materion allweddol (nad oeddent wedi'u cynnwys mewn adroddiadau amlygu presennol)[12], gan gynnwys adrodd ar effaith COVID-19 ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

[10] Er enghraifft, cafodd risgiau sy'n ymwneud â chapasiti radiotherapi a gorboblogi yn yr adran cleifion allanol yng Nghanolfan Ganser Felindre eu hatal dros dro i gael eu hystyried fel rhan o gynllunio'r galw a chapasiti yn y cyfnod adfer.

[11] Fel arfer dim ond risgiau â sgôr o 16+ sy'n cael eu huwchgyfeirio at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

[12] Bydd cyflwyno'r adroddiad hwn yn helpu i sicrhau prosesau rheolaidd, cylchol i adrodd ar agweddau ar ansawdd a diogelwch a rhoi ystyriaeth iddynt, a hwythau'n arfer cael eu hystyried ar sail ad hoc.

42 Fe wnaeth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ystyried a oedd yn cael sicrwydd digonol ym mhob un o'r meysydd a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch **Cyflawni Cyfrifoldebau Pwyllgorau Byrddau yn ystod y cyfnod ymateb i COVID-19**, ac fe wnaed trefniadau i lenwi bylchau o ran adrodd.

43 Mewn adroddiadau blaenorol ar asesiadau strwythuredig, rydym wedi gwneud argymhellion ynghylch mynd i'r afael â gwendidau o ran craffu ar y modd y cynllunnir archwiliadau clinigol ac yr adroddir arnynt. O ganlyniad i'r pandemig, mae'r dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion wedi cael ei ohirio tan fis Hydref 2020. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Hwb Gwella Ansawdd sy'n cynnwys panel amlddisgyblaethol i ystyried dichonoldeb prosiectau archwilio clinigol a sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith. Cafodd cynllun archwilio clinigol ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r cynllun yn nodi rhaglenni cenedlaethol a lleol o waith archwilio clinigol, a fydd yn cael eu blaenoriaethu a'u hailgychwyn pan fo'n briodol gwneud hynny. Mae'r cynllun hefyd yn nodi archwiliadau clinigol sy'n gysylltiedig â COVID-19 (mewn perthynas â rheoli heintiau a goblygiadau newidiadau i gynlluniau triniaethau). Bwriedir y bydd archwilio clinigol yn rhan allweddol o'r fframwaith sicrwydd llywodraethu integredig sydd wrthi'n datblygu, a fydd yn helpu i gryfhau'r drefn o fonitro ansawdd gwasanaethau ar draws yr Ymddiriedolaeth. Hefyd, mae cynlluniau i ailbennu ffocws sicrwydd ansawdd yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru i gefnogi newid a gwelliannau yn hytrach na dim bod y ffocws ar arolygu a gorfodi yn unig.

44 Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi parhau i graffu ar adroddiadau am ymchwiliadau i gwynion a digwyddiadau. Mae adroddiadau'n adnabod tueddiadau, meysydd a allai fod yn achos pryder, a'r camau gweithredu a gymerwyd i rannu gwersi ar draws y sefydliad. Cafodd y pwyllgor yr adroddiad **Gweithio i Wella** blynyddol ym mis Gorffennaf 2020. Mae adroddiadau'r pwyllgor hefyd yn nodi proses yr Ymddiriedolaeth ar gyfer ymchwilio i heintiau COVID-19 a ddaliwyd mewn ysbytai ymhlith cleifion a staff[13]. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi cael sicrwydd bod gan yr Ymddiriedolaeth fecanweithiau adrodd priodol i gydymffurfio â'r gofynion i adrodd ar ddigwyddiadau difrifol COVID-19, a hysbysu ynghylch marwolaethau y tybir eu bod yn gysylltiedig â COVID-19. Mae adolygiadau o farwolaethau'n dal i gael eu cynnal a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

45 Cafodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch sicrwydd gan y gell Diwedd Oes bod Canolfan Ganser Felindre'n cydymffurfio â chanllawiau perthnasol ynghylch gofal diwedd oes a gofal am bobl ymadawedig. Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer gwaith parhaus i gyfathrebu gyda staff a'u monitro mewn perthynas â'r canllawiau. Mae'r gell Diwedd Oes hefyd wedi arwain ar sicrhau cymorth priodol gyda phrofedigaeth

[13] Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu prosesau ar gyfer adrodd ar gleifion a staff sy'n dal COVID-19 ac ymchwilio i achosion o'r fath, ac mae'r prosesau hynny wedi cael eu hymgorffori mewn dull cenedlaethol.

ar gyfer y perthynas agosaf a sicrhau bod trefniadau ymweld yn gyson â’r gofynion cenedlaethol.

46 Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth â rhybuddion a hysbysiadau diogelwch cleifion ac i adrodd yn chwarterol wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

47 Mae Grŵp Atal a Rheoli Heintiau’r Ymddiriedolaeth wedi cwrdd o leiaf yn fisol trwy gydol y pandemig. Mae’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi cael sicrwydd ynghylch y cyfundrefnau glanhau estynedig a roddwyd ar waith. Mae canfyddiadau adolygiadau o gydymffurfio â gofynion hylendid dwylo a safonau glanhau wedi cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, gyda chrynodeb o gamau gweithredu sydd naill ai wedi cael eu rhoi ar waith yn barod neu sydd ar y gweill i wella cydymffurfiaeth.

48 Mae adroddiadau ar ddangosfwrdd y gell Cyfarpar Diogelwch Personol wedi bod yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a’r rheiny’n darparu crynodeb o’r brif neges allweddol a chamau gweithredu a gwblhawyd ac sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae’r wybodaeth yn y Dangosfwrdd wedi darparu sicrwydd i’r Bwrdd ynghylch lefelau stoc Cyfarpar Diogelwch Personol, cyfraddau defnydd, cydymffurfio â phrofion ffitio ar gyfer mygydau a chydymffurfio â gwisgo a diosg Cyfarpar Diogelwch Personol.

49 Mae adroddiadau o’r gell cadw pellter cymdeithasol yn darparu crynodeb o fesurau a roddwyd ar waith yng Nghanolfan Ganser Felindre, ar safleoedd Gwasanaeth Gwaed Cymru ac ym mhencadlys yr Ymddiriedolaeth i gyfyngu ar ymlediad yr haint a chydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol.

50 Mae penderfyniadau clinigol i ohirio neu newid triniaethau canser wedi cael eu gwneud dan Fframwaith Llywodraethu a Gweithredu Clinigol (Gwneud Penderfyniadau Clinigol a Phenderfyniadau ynghylch Llwybrau/ Triniaeth Cleifion yn ystod COVID-19). Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo’r fframwaith ym mis Mawrth 2020 ac eto ym mis Mai pan gafodd ei ddiweddaru. Mae’r Bwrdd wedi cael diweddariadau cyson am newidiadau i lwybrau triniaeth cleifion a gofal a ohiriwyd. Fe ddarparodd adroddiad i’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Mehefin 2020 sicrwydd nad oedd unrhyw wasanaethau hanfodol nad oeddent yn gallu cael eu cynnal. Mae asesiadau risg yn cael eu cynnal a’u hystyried cyn gwneud penderfyniadau am newidiadau i ddarparu gwasanaethau neu adfer gwasanaethau. Caiff penderfyniadau am newidiadau i wasanaethau eu goleuo gan ganllawiau Llywodraeth Cymru a chanllawiau perthnasol eraill.

51 Mae adroddiadau pwyllgorau’n dynodi bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio i adnabod y risg o niwed i gleifion. Mae adroddiadau ar berfformiad yn darparu crynodeb o berfformiad yn erbyn amseroedd aros a chrynodeb o’r rhesymau a’r effaith ar gleifion. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Grŵp Cyswllt Clinigol amlddisgyblaethol i roi cymorth i dimau clinigol ddatblygu prosesau blaenoriaethu clinigol ac asesu effeithiau. Mae adolygiad o’r holl gleifion y cafodd eu gofal ei ohirio yn ystod y pandemig i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2020. Ar yr adeg hon, bydd cleifion yn cael eu symud ymlaen i lwybr triniaeth priodol, a bydd yr

effaith a'r niwed o ganlyniad i driniaeth a ohiriwyd yn cael eu hadnabod a'u cofnodi. Bydd angen i adroddiadau yn y dyfodol ganolbwyntio ar y deilliannau.

52 Fe wnaethom adrodd yn flynyddol ar ddull cynhwysfawr a rhagweithiol yr Ymddiriedolaeth o ymdrin ag iechyd a lles staff. Yn ystod y pandemig, mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi cael sicrwydd rheolaidd ynghylch dull yr Ymddiriedolaeth o ymdrin â lles staff a chamau i amddiffyn staff yn ystod y pandemig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth gydag undebau llafur a chynrychiolwyr staff i ddeall pryderon staff, datblygu a chyhoeddi arolygon a gweithredu ymgyrchoedd cyfathrebu ynglŷn â phwysigrwydd asesu risgiau ar gyfer staff agored i niwed. Ym **mharagraff 85** rydym wedi darparu rhagor o wybodaeth am fentrau lles ar gyfer staff. Hefyd fe wnaeth staff yr Ymddiriedolaeth ddatblygu nifer o fideos rhagorol a oedd ar gael yn gyhoeddus i egluro sut y mae'r pandemig wedi effeithio ar y ffordd y maent yn gweithio, ac i roi sicrwydd i gleifion a rhoddwyr ynghylch parhad diogel gwasanaethau.

53 Fe ddatblygodd yr Ymddiriedolaeth offeryn asesu risg y gweithlu i asesu staff sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg uwch o ddal y coronafeirws, gan gynnwys pobl o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac yn ddiweddarach fe ymgorfforodd y pecyn cymorth Cymru gyfan. Mae staff yn cael eu hannog i gwblhau eu hunanasesiadau a'u dychwelyd at eu rheolwr. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Mehefin 2020, nododd yr Ymddiriedolaeth fod 97% o staff wedi cwblhau'r asesiad risg. Mae trefniadau gwahanol yn bodoli ar gyfer staff y nodwyd eu bod yn wynebu risg uwch, gan gynnwys gweithio gartref, lefelau uwch o Gyfarpar Diogelwch Personol a, lle y bo'n briodol, allgau meddygol.

54 Fe ddatblygodd yr Ymddiriedolaeth ddangosfwrdd gweithlu COVID-19 i fonitro gweithgarwch recriwtio, lleoli, cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar Gyfarpar Diogelwch Personol, absenoldeb, profi staff, asesiadau risg a sicrhau lefelau staffio diogel. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd hefyd yn cael metrigau sy'n ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19, y rhai sy'n gwarchod neu'n hunan-ynysu.

## Mae gwaith i dracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio wedi parhau

55 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull sydd wedi hen ennill ei blwyf o dracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi parhau i adolygu'r offeryn tracio argymhellion archwilio mewnol ac allanol ym mhob cyfarfod. Yn ein hadroddiad yn 2019 fe argymhellom ni y dylai'r Pwyllgor Archwilio sefydlu mecanwaith i'w argyhoeddi ei hun bod camau a gymerwyd yn foddhaol i dynnu argymhellion oddi ar yr offeryn tracio. Mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

56 Fe wnaeth yr offeryn tracio argymhellion archwilio ym mis Gorffennaf 2020 amlygu'r camau gweithredu lle gofynnwyd am estyniadau i ddyddiadau cyflawni oherwydd COVID-19. Cafodd y ceisiadau am estyniadau eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Fe wnaethom nodi bod rhai camau gweithredu na chawsant eu

cyflawni erbyn y dyddiad cwblhau heb gynnwys diweddariad diweddar a chais am estyniad ar y dyddiad cyflawni. Ar gyfer y camau gweithredu hyn fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio bennu terfyn amser cwblhau priodol ac uwchgyfeirio'r gofyniad i ddarparu'r wybodaeth hon ym mhapur amlygu'r Pwyllgor Archwilio i'r Bwrdd.

57 Mae offeryn tracio gwelliannau archwilio allanol a mewnol y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi cael ei wreiddio dros y 12 mis diwethaf. Fe wnaeth offeryn tracio 2020 ddarparu sicrwydd bod camau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith i gau'r rhan fwyaf o argymhellion. Ar gyfer y camau gweithredu hynny a oedd ar y gweill neu'n hwyr, darparwyd dyddiad cwblhau diwygiedig, yn sgîl yr anallu i gwrdd â'r terfynau amser gwreiddiol o ganlyniad yn uniongyrchol i ymateb i'r pandemig.

# Rheoli adnoddau ariannol

58 Fe wnaeth ein gwaith ystyried perfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

59 Canfuom fod **trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli adnoddau ariannol yn gweithio'n dda ond eu bod yn seiliedig ar dybiaeth y ceir cyllid ychwanegol i gwrdd â chost barhaus ymateb i COVID-19.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gyflawni ei dyletswyddau ariannol ond mae'r cynlluniau ariannol ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar dybiaeth y ceir cyllid ychwanegol i gwrdd â chost barhaus ymateb i COVID-19

#### Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gyflawni ei dyletswyddau ariannol

60 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyson yn mantoli'r cyfrifon ac, yn 2019-20, fe nododd warged bach o £24,000. Fe gyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd ariannol statudol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd (2017-18 i 2019-20) hefyd. Fe sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth gynllun tymor canolig integredig (CTCI) cymeradwy ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22. Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys costau o £80,000 a oedd yn gysylltiedig ag ymateb yr Ymddiriedolaeth i COVID-19. O'r costau ychwanegol hyn, cafodd £46,000 o wariant cyfalaf ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, a chafodd y £34,000

o wariant refeniw a oedd yn weddill ei reoli o fewn sefyllfa'r Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y flwyddyn[14].

61 Yn 2019-20, fe gadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth ofyniad ar gyfer arbedion o £1.833 miliwn, yr oedd £1.504 ohono'n mynd i gael ei gyflawni o gynlluniau arbedion a adnabuwyd a chynlluniau creu incwm gyda'r £0.329 miliwn sy'n weddill yn cael ei gyflawni gan dargedau incwm ychwanegol ac enillion cyfrifyddiaeth. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth 93% o'i chynlluniau arbedion wedi'u cynllunio, cyrhaeddodd y targedau incwm a chyflawnodd yr enillion cyfrifyddiaeth bwriadedig, ond fe wnaeth arbedion pellach trwy gadw swyddi'n wag. Felly, ar y cyfan, fe gyflawnodd yr Ymddiriedolaeth £1.594 miliwn (106%) o arbedion wedi'u cynllunio, y mae 72% ohonynt yn rhai cylchol.

## Tanategir rhaglen waith yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020-21 gan gynllun ariannol ond mae mantoli'r cyfrifon yn seiliedig ar dybiaeth y bydd cyllid ychwanegol ar gael i gwrdd â chost barhaus ymateb i COVID-19

62 Cafodd cynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020-21, a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ei rannu gyda'r Bwrdd ym mis Ionawr. Mae'r Cynllun yn nodi bod arbedion o £1.4 miliwn (£0.8 miliwn o arbedion gwirioneddol a £0.6 miliwn o gynlluniau creu incwm) yn ofynnol i fantoli'r cyfrifon. Caiff y targed arbedion ei bennu yng nghyd-destun;

- gwrthbwyso'r diffyg sylfaenol a ddygwyd ymlaen o 2019-20 (£0.539 miliwn);
- mynd i'r afael ag £1.517 miliwn o bwysau newydd o ran costau a buddsoddiadau i ariannu newidiadau a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig; ond
- mae'n cydnabod dyraniad incwm cylchol newydd o £0.656 miliwn. Roedd yr arbedion a nodwyd yn cynnwys £1 miliwn o arbedion gwirioneddol a £0.4 miliwn o gynlluniau creu incwm.

63 Ers mis Mawrth 2020, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailystyried ac addasu ei chynlluniau ariannol. Mae datblygu cynlluniau pendant yn her o ystyried ffactorau anhysbys niferus sy'n ymwneud ag effaith y pandemig. Mae ffactorau ansicr yn cynnwys y gallu i wneud arbedion a gwireddu incwm, swm anhysbys y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ariannu costau COVID-19 ac ansicrwydd ynghylch ffioedd byrddau iechyd sy'n comisiynu.

64 Ym mis 2, roedd cynlluniau arbedion manwl wedi cael eu datblygu ar gyfer £1.05 miliwn o'r targed. Fodd bynnag, roedd £0.35 o gynlluniau arbedion yn dal wrthi'n cael eu datblygu ac roedd angen cynnal asesiad risg ohonynt o safbwynt y gallu i'w cyflawni a'u heffaith ar wasanaethau. Roedd disgwyl i gyfran sylweddol o'r

[14] Ysgwyddwyd gwariant ychwanegol sylweddol mewn perthynas â COVID-19 gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ond nid yw o fewn cwmpas ein hadolygiad.

arbedion gael eu cyflawni trwy ailddylunio gwasanaethau a rhesymoli'r gweithlu, nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu arnynt oherwydd anghenion o ran capasiti sy'n gysylltiedig â darparu yn ystod y pandemig. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn rhagweld bod y tebygolrwydd o gyflawni'r incwm a fwriadwyd o gynnydd mewn cynhyrchion gwaed yn isel. Ym mis 3, nododd yr Ymddiriedolaeth ei bod yn rhagweld mai dim ond £0.7 miliwn (50%) o'r targed arbedion a chreu incwm ar gyfer y flwyddyn gyfan y gellir ei gyrraedd. Mae cynlluniau mis 3 yn dangos bod cynlluniau arbedion manwl o £0.65 miliwn (gostyngiad o £0.4 miliwn o'i gymharu â'r mis blaenorol), £0.05 o gynlluniau wrthi'n cael eu datblygu a bod y £0.7 miliwn o arbedion sy'n weddill yn annhebygol o gael eu cyflawni. Mae arbedion ar gyfer y flwyddyn hyd yma ym mis 3 wedi cael eu tangyflawni o £0.139 miliwn.

65 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio tuag at gyflwyno model costio ariannol newydd. Mae'r model yn seiliedig ar arian (gweithgareddau) newydd ar gyfer contractau a phrisiau newydd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o ystod a chymhlethdod y gwasanaethau canser arbenigol a ddarperir gan Ganolfan Ganser Felindre. Mae'r model yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau mewn triniaethau dros amser. Yn ogystal â chytuno ar brisiau newydd gan ddefnyddio costio seiliedig ar weithgarwch a ysgogir gan amser, mae cyfraddau ymylol mwy realistig ar gyfer amrywiannau mewn meintiau wedi'u contractio wedi cael eu cytuno gyda'r comisiynwyr hefyd. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn amcanu at roi'r model ar waith yn 2020. Fodd bynnag, mae lefelau llai o weithgarwch yn ystod y pandemig yn golygu bod yr Ymddiriedolaeth a chomisiynwyr wedi cytuno ar ddull diwygiedig ar gyfer hanner cyntaf 2020-21 i sicrhau sefydlogrwydd ariannol yr Ymddiriedolaeth. Ar gyfer hanner cyntaf 2020-21, roedd incwm yr Ymddiriedolaeth gan gomisiynwyr Canolfan Ganser Felindre'n seiliedig ar alldro 2019-20 a chodiadau sylfaenol y cytunwyd arnynt ar gyfer 2020-21. Ceir ansicrwydd ynghylch cytuno lefelau ariannu ar gyfer ail hanner y flwyddyn, gan na ddaethpwyd i gytundeb. Ar adeg ysgrifennu, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio ar sail effaith niwtral o ran incwm o weithgareddau ymylol oherwydd cymhlethdodau ac ansicrwydd sy'n gysylltiedig â rhagweld lefelau gweithgareddau yn y dyfodol.

66 Ym mis 3, nododd yr Ymddiriedolaeth fod disgwyl i gyfanswm y gwariant a ragwelir ar COVID-19 ar gyfer 2020-21 fod yn £3.354 miliwn gyda'r potensial ar gyfer buddsoddiad pellach o £4.684 i gynyddu capasiti yn ddiweddarach yn y flwyddyn os bydd y galw'n cyrraedd yr un lefelau gweithgarwch ag a welwyd cyn COVID-19. Felly, gallai cyfanswm y costau fod yn £8.038 miliwn. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol o'i gymharu â rhagolygon blaenorol o ganlyniad i gynnwys buddsoddiad pellach posibl o £4.684 miliwn. Mae'r cyfanswm yn cynnwys £2.438 miliwn mewn costau cyflogau, £5.150 miliwn mewn costau heblaw cyflogau a £0.7 miliwn sy'n deillio o beidio â chyflawni arbedion. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld gostyngiad o £0.25 miliwn mewn costau. Mae'r rhagolwg ar gyfer gwariant heblaw cyflogau'n cynnwys £1.153 miliwn sy'n ymwneud â gwasanaeth plasma ymadfer Cymru gyfan, y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'w ariannu.

67 Felly, o ran y sefyllfa ym mis 3, gallai cyfanswm y gwariant refeniw a ragwelir nas ariannwyd ar gyfer COVID-19 fod yn £6.885 miliwn pe bai'r galw'n cyrraedd yr un lefelau ag a welwyd cyn COVID-19. Eleni hyd yma mae'r gwariant ar COVID-19 yn £0.764 miliwn. Ym mis 3, nododd yr Ymddiriedolaeth orwariant bach o £13,000, gyda thangyflawni sylweddol yn erbyn incwm yn cael ei wrthbwyso gan danwariant mewn gwariant cyflogau a gwariant heblaw cyflogau. Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn gweithio ar y dybiaeth y bydd costau llawn ac unrhyw arbedion yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan COVID-19 yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

68 Ym mis 3, roedd cyfanswm cyllid cyfalaf cymeradwy'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020-21 yn £4.992 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli cyllid cyfalaf ar lefel Cymru gyfan o £2.653 miliwn ac £1.850 miliwn o gyfalaf yn ôl disgresiwn a chyllid COVID-19 wedi'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru o £0.489 miliwn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn gwario £1.457 miliwn ar wariant cyfalaf sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn ystod 2020-21. Cyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin yn gofyn am gyllid i gefnogi'r costau hyn. Ers hynny mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael cadarnhad o gyllid o £92,000 ar gyfer dyfeisiau digidol a £0.397 miliwn ar ddyfeisiau casglu plasma ymadfer. Ym mis 3, roedd gwariant cyfalaf yn gyson â gwariant a gynlluniwyd, ac eithrio gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynlluniau cyfalaf yn ôl disgresiwn a fydd yn barod i symud ymlaen unwaith y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cael cadarnhad o gyllid gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid COVID-19 a'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Mae cyllid yn ôl disgresiwn wedi cael ei ddyrannu i'r ddwy isadran i alluogi cynlluniau digidol brys i symud yn eu blaenau.

69 Ariennir y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn bennaf o ddyraniad cyllideb gyfalaf ar wahân a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Caiff gofynion cyfalaf eu nodi yn yr achosion busnes ffurfiol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Tra'i bod yn disgwyl i'r achos busnes gael ei gymeradwyo, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno cais interim am gyllid o £1.1 miliwn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2020 a, nes y gwneud penderfyniad, mae'n defnyddio cyllid yn ôl disgresiwn i gefnogi'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser.

70 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno'r ffurflenni monitro misol i Lywodraeth Cymru yn unol â'r templedi newydd. Adroddir wrth y Bwrdd ar y sefyllfa ariannol bob mis, er na chafwyd adroddiadau llawn ym mis Mawrth a mis Ebrill. Canfu ein hadolygiad ni o adroddiadau ariannol a gyflwynwyd i'r Bwrdd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf eu bod yn darparu gwybodaeth amserol ac o ansawdd da am berfformiad ariannol, gan gynnwys arbedion ariannol a ffactorau sy'n rheoli costau mewn perthynas â COVID-19. Mae adroddiadau cyllid hefyd yn nodi'n glir beth yw'r risgiau ariannol a'r goblygiadau o ran costau.

## Rheolaethau ariannol

### Mae mecanweithiau’n bodoli ar gyfer cofnodi a thracio gwariant ar COVID-19 yn gywir ac fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth newidiadau angenrheidiol i reolaethau ariannol

71 Mae trefniadau llywodraethu’r Ymddiriedolaeth yn ddigyfnewid i raddau helaeth ac eithrio newidiadau a gymeradwywyd i derfynau dirprwyedig ar gyfer Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a Chadeirydd a Rheolwr Gyfarwyddwr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae cynnydd dros dro yn nherfyn dirprwyedig y Prif Weithredwr yn ei alluogi i neilltuo adnoddau ariannol gwerth hyd at £1 miliwn ar gyfer gweithgarwch sy’n gysylltiedig â COVID-19 yn unig (cynnydd o £900,000). Cafodd y terfyn awdurdodi dirprwyedig ar gyfer Cadeirydd a Rheolwr Gyfarwyddwr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei godi i £2 filiwn ac yn ddiweddarach i £5 miliwn mewn perthynas â gwariant COVID-19 a ysgwyddir ar ran GIG Cymru (ar gyfer Cyfarpar Diogelwch Personol, gwelyau, peiriannau anadlu ac ocsigen). Sefydlwyd Grŵp Llywodraethu Cyllid Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ran GIG Cymru i oruchwylio gwariant lle’r oedd yn ofynnol cyflwyno taliadau rhag blaen a/neu gael cymeradwyaeth rhag blaen gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae is-gadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn eistedd ar y grŵp hwn, gan alluogi cyfrifoldebau’r Ymddiriedolaeth am wariant gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gael eu hystyried. Mae’r gofyniad i hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch bwriad yr Ymddiriedolaeth a’i chyrff a letyir i ymrwymo i gontract gwerth dros £1 miliwn neu lle’r oedd taliadau rhag blaen yn werth 25% neu fwy o werth y contract yn dal i fod yn eu lle.

72 Rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth hefyd i atal y gofyniad i ddilyn y trothwyon caffael yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog mewn perthynas â thendrau cystadleuol a dyfynbrisiau yn ystod argyfwng COVID-19, a ganiateir dan reoliadau caffael cyfredol. Mae Pwyllgor Archwilio’r Ymddiriedolaeth yn parhau i gael adroddiadau’r Ymddiriedolaeth, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar Weithredoedd Tendr Sengl a Gweithredoedd Dyfynbris Sengl fel sy’n ofynnol yn ôl y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Ni wnaed unrhyw ragdaliadau gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod COVID-19, ac eithrio’r rhai sy’n ymwneud â phryniadau Cymru Gyfan gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae Pwyllgor Archwilio Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cael adroddiadau sy’n cynnwys manylion pryniadau lle’r oedd taliad rhag blaen yn ofynnol, ac adroddiadau am wariant COVID-19 a oedd yn gysylltiedig â Chymru Gyfan. Sefydlwyd cyfrifon Escrow[15] ar gyfer cyflenwyr newydd a lle’r oedd taliadau rhag blaen yn ofynnol.

[15] Trefniant ariannol yw Escrow lle mae dau barti’n sicrhau cymorth trydydd parti i ddal arian, gwaith papur neu asedau ar gyfer trafodiad dros dro ar eu rhan cyn bod y trafodiad wedi cael ei gwblhau.

73 Fe sefydlodd yr Ymddiriedolaeth godau costau ar wahân i gofnodi gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 ym mhob cyfarwyddiaeth a ddylai gael eu defnyddio i gofnodi'r holl wariant refeniw y cytunwyd arno. Mae mecanweithiau'n bodoli i sicrhau bod yr holl wariant y defnyddir y cod COVID-19 ar ei gyfer yn briodol, a bod gwariant o fewn cyllidebau dirprwyedig. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal logiau o benderfyniadau ynghylch gwariant ariannol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cael ei gynnwys ar y ffurflenni monitro misol i Lywodraeth Cymru ac adroddir arno wrth y Bwrdd.

# Cynllunio gweithredol

74 Fe wnaeth ein gwaith ystyried cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol a rheolaidd pan fo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.

75 Canfuom fod yr **Ymddiriedolaeth wedi gweithio'n dda i ddatblygu ei chynlluniau gweithredol a'i bod yn mynd ati'n barhaus i adnabod yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni ei chynlluniau, ond ni chafodd y Cyngor Iechyd Cymuned ei gynnwys yn ddigon cynnar yn y broses o ddatblygu cynlluniau. Mae trefniadau monitro effeithiol ar waith.**

## Datblygu'r cynllun

### Fe wnaeth cyswllt rheolaidd â rhanddeiliaid yn ystod y pandemig helpu'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu cynlluniau chwarterol yn gyflym, er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gallai'r Cyngor Iechyd Cymuned fod wedi cael ei gynnwys yn gynharach

76 Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith cynllunio gweithredol i roi arweiniad i gyrff y GIG wrth ddatblygu cynlluniau chwarterol. Gweithiodd yr Ymddiriedolaeth yn dda gyda'i Bwrdd i ddatblygu cynlluniau chwarter un a chwarter dau gyda'r ddau gynllun yn cael eu cynhyrchu'n gyflym ac yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y terfynau amser gofynnol. Sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth broses ar gyfer cymeradwyo cynlluniau o ystyried bod y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cyn bod y Bwrdd i fod i gwrdd. Rhoddodd y broses gyfle i aelodau'r Bwrdd wneud sylwadau a herio cyn gweithredu gan y Cadeirydd a chadarnhau wedyn gan y Bwrdd.

77 Bu'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu ac yn cydweithio gyda rhanddeiliaid trwy gydol y pandemig, a helpodd i lunio'r cynlluniau chwarterol. Gweithiodd yr Ymddiriedolaeth gyda Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a phartneriaethau eraill, megis Rhwydwaith Canser Cymru, i ddatblygu ei chynlluniau. Mae cydweithio gyda

phartneriaid wedi helpu i adnabod ffactorau a allai leihau capasiti gwasanaethau, i ddeall yr effaith ar y galw dros y tymor canolig a hwy ac i adnabod opsiynau ar gyfer cynyddu capasiti gwasanaethau. Ceir cydnabyddiaeth glir gan aelodau'r Bwrdd i werth y dull partneriaeth a'r arbenigedd a gynigir gan bartneriaid gan gynnwys y fyddin, awdurdodau lleol, y sector prifysgolion, cyrff iechyd eraill a'r sector gwirfoddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi sicrhau trafodaethau mwy amserol i alluogi'r Cyngor Iechyd Cymuned i gael mewnbwn i gynlluniau i newid y modd y darperir gwasanaethau mewn ymateb i COVID-19 a goleuo'r cynllun gweithredol nesaf.

78 Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth hunanasesiad yn erbyn Fframwaith Gwasanaethau Hanfodol Llywodraeth Cymru. Canfu'r hunanasesiad fod yr Ymddiriedolaeth wedi gallu cynnal ei gwasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig, hyd yn oed lle'r oedd gwasanaethau'n cael eu darparu'n wahanol. Mae'r Fframwaith Gwasanaethau Hanfodol wedi cael ei ddiweddaru'n ddiweddar ac mae'n cynnwys y Fframwaith ar gyfer Adfer Gwasanaethau Canser yng Nghymru yn ystod COVID-19. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys camau gweithredu perthnasol yn ei chynllun gweithredol ar gyfer chwarter dau i adfer gwasanaethau canser rheolaidd.

79 Wrth ddatblygu ei chynlluniau chwarterol, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth waith i fodelu capasiti a galw gan ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru a chyrff eraill ynghylch adfer gwasanaethau. Mae cynllunio capasiti'n ystyried effaith ffactorau cyfyngol (megis cadw pellter cymdeithasol ac atal a rheoli heintiau) a'r potensial ar gyfer estyn oriau/diwrnodau gwaith ac opsiynau ar gyfer rhoi gwasanaethau ar gontract allanol. Mae cynllunio capasiti'n ystyried yr angen i sicrhau diogelwch staff, cleifion a rhoddwyr ac i leihau i'r eithaf y risg o drosglwyddo COVID-19.

80 Yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru, mae'r ffocws ar gyfer chwarter dau ar adfer y nifer fach o wasanaethau sydd wedi cael eu hatal dros dro a chynyddu lefelau gweithgarwch gwasanaethau a leihawyd o ganlyniad i'r pandemig. Mae cynllun chwarter dau ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru, o reidrwydd, yn gwneud tybiaethau niferus ynghylch ffactorau megis model clinig COVID-19, gan gynnwys gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol a sgrinio, cynnydd yn y galw am waed, gweithgarwch yn dychwelyd i lefelau cyn COVID-19, ymddygiad rhoddwyr, absenoldeb y gweithlu trwy warchod a chyfnodau gohirio ar gyfer rhoddwyr sy'n gwella o COVID-19. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi amlygu'r anawsterau o ran meintioli'r galw am waed ac mae'n gweithio gyda rheolwyr banciau gwaed y byrddau iechyd i gael gwybodaeth gyson am newidiadau yn y galw. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru'n cynllunio ar y sail y bydd y galw am waed yn lleihau 20% i ddechrau ond yn cynyddu i lefel a fydd 10% yn uwch na lefelau arferol dros chwarter dau wrth i fyrddau iechyd ddechrau adfer gwasanaethau. Mae rhagolygon Gwasanaeth Gwaed Cymru'n dynodi y bydd y gwasanaeth yn gallu ateb y galw am waed yn ystod chwarter dau. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru hefyd yn modelu lefelau casglu gwaed disgwyliedig ac yn adnewyddu lleoliadau ei glinigau, yn ogystal ag ystyried ailagor lleoliadau cymunedol.

81 Yn ystod chwarter dau, mae'r ffocws ar gyfer Canolfan Ganser Felindre ar adfer ei model gwasanaethau allgymorth, cynyddu capasiti gwasanaethau i'r eithaf yng

Nghanolfan Ganser Felindre ac mewn lleoliadau allgymorth, a datblygu capasiti ychwanegol mewn gwasanaethau gyda darparwyr trydydd parti. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio dull gochelgar ond mae'n cydnabod bod cyfleoedd i alinio modelau gwasanaethau newydd â'i hamcanion strategol a modelau gofal trawsnewidiol. Roedd effaith y pandemig ar fodel gwasanaethau clinigol Canolfan Ganser Felindre'n sylweddol. Cyn COVID-19 roedd dros chwarter gwasanaethau Canolfan Ganser Felindre'n cael eu darparu mewn lleoliadau allgymorth neu yng nghartrefi cleifion. Fodd bynnag, cafodd yr holl wasanaethau eu canoli'n gyflym, gyda'r nod o gynnal gwasanaethau diogel ar gyfer cleifion mewn amgylchedd sy'n ddiogel rhag COVID-19. Hefyd, cyflwynwyd llwybrau triniaeth cleifion arwyddocaol, gan gynnwys trosglwyddo cleifion o lwybrau radiotherapi i lwybrau therapi gwrth-ganser systemig (SACT), gan arwain at gynnydd o 500% mewn atgyfeiriadau SACT ym mis Mawrth 2020. Fel Gwasanaeth Gwaed Cymru, mae Canolfan Ganser Felindre'n cynllunio'r galw ar sail tybiaethau. Mae Canolfan Ganser Felindre'n rhagweld cynnydd graddol yn y galw am ei gwasanaethau yn ystod chwarter dau, a chynnydd sylweddol yn ystod chwarterau tri a phedwar.

82 Mae'r Ymddiriedolaeth yn llunio proffiliau risg ar gyfer cleifion i helpu i gynllunio a blaenoriaethu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed (gweler **paragraff 51**).

83 Dengys ein hadolygiad o gynlluniau chwarterol yr Ymddiriedolaeth eu bod yn cynnwys ffocws gweithredol a'u bod yn ymgorffori'r hyblygrwydd gofynnol ar gyfer gwasanaethau yn y byrdymor mewn modd priodol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre wedi datblygu cyfres o gamau gweithredu a risgiau allweddol i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion a nodir yn eu cynlluniau adfer.

## Adnoddau i gyflawni'r cynllun

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n barhaus i adnabod yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni ei chynlluniau gweithredol ac yn ailgychwyn gwasanaethau ac yn asesu goblygiadau anhysbys y pandemig

84 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn wynebu heriau o ran adnoddau'r gweithlu wrth ddechrau ymateb i'r pandemig a hynny oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys, er enghraifft, absenoldeb oherwydd salwch, absenoldeb arbennig a oedd yn gysylltiedig â COVID-19. Fe sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Hwb y Gweithlu i roi cymorth gyda recriwtio ychwanegol, lleoli staff, rheoli gwybodaeth y gweithlu a rhoi seilwaith effeithiol ar waith ar gyfer lles staff. Rhoddwyd ystod o gamau gweithredu ar waith, gan gynnwys:

- cynyddu lefelau recriwtio staff mewnol, estyn contractau staff byrdymor/dros dro presennol a gwneud penodiadau dros dro i ateb y galw am wasanaethau gwaed;

- sefydlu cadwyn gyflenwi ar gyfer recriwtio allanol i benodi staff trwy broses garlam i gronfa staff Banc yr Ymddiriedolaeth;
- ymgysylltu â Hwb COVID-19 Cymru gyfan i leoli darpar nyrsys ar eu blwyddyn olaf i Ganolfan Ganser Felindre;
- cwblhau asesiad o'r rolau yn y sefydliad sy'n dyngedfennol i'r busnes er mwyn ei gwneud yn bosibl lleoli staff i gefnogi meysydd sy'n dyngedfennol i'r busnes;
- datblygu dangosfwrdd y gweithlu (gweler **paragraff 54**); a
- sefydlu Cell y Gweithlu i fonitro mesurau COVID-19 allweddol mewn perthynas â diogelwch a lles staff.

85 Mae iechyd a lles staff wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Ymddiriedolaeth trwy gydol y pandemig ac mae'n cydnabod y bydd staff dan bwysau cynyddol wrth symud i mewn i'r cyfnod adfer. Canfu ein gwaith fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno ystod o fentrau lles, er enghraifft:

- wedi cyflwyno llinell gymorth COVID-19 y gweithlu ar gyfer staff a rheolwyr;
- wedi addasu tudalennau iechyd a lles presennol yr Ymddiriedolaeth ar y fewnrwyd i roi cymorth ac arweiniad sy'n ymwneud yn benodol â COVID-19 i staff, gan gynnwys hunanofal, rhaglen cynorthwyo cyflogeion, lles ariannol a chymorth rheolwyr;
- darparu diweddariadau am les mewn cyfathrebiadau beunyddiol gan gyfeirio at ymyriadau ac adnoddau mewnol ac allanol;
- wedi datblygu a gweithredu polisïau gweithio hyblyg ac arferion mewn perthynas â gweithio gartref, gwarchod, estyniad ar wyliau blynyddol, absenoldeb arbennig, arferion gweithio hyblyg, lleoli dros dro, estyniad i'r cynllun cymhorthdal gofal plant ac asesiadau risg staff;
- neilltuo ardaloedd ymneilltuo ar safleoedd i staff allu cael egwyl;
- mae tîm seicoleg cleifion yr Ymddiriedolaeth yn rhoi cymorth i staff a rheolwyr i gefnogi eu timau;
- mae trefniadau profi staff yn eu lle ac wedi cael eu cyfleu i staff; a
- rhoi prosesau asesu risg ar waith i adnabod staff a allai fod yn fwy agored i niwed o ganlyniad i'r feirws.

86 Gan gydnabod gwerth yr ardaloedd ymneilltuo ar gyfer staff a'r gwasanaethau seicoleg, mae'r Ymddiriedolaeth yn paratoi achosion busnes i'w galluogi i barhau i ddarparu'r naill a'r llall yn barhaus.

87 Yn ystod y cyfnod adfer bydd gwaith parhaus yn cael ei wneud ar iechyd a lles staff trwy ddatblygu Cynllun Iechyd a Lles, yn seiliedig ar y model CARE (creu, cynorthwyo, ymgysylltu, cyflym). Bydd hyn yn cynnwys lansio platfform ar-lein cyfrinachol i staff leisio'u pryderon, darparu awgrymiadau / syniadau ar gyfer gwella yn ogystal â galluogi'r Ymddiriedolaeth i gasglu data defnyddiol ar les.

88 Cafodd cynlluniau chwarterol yr Ymddiriedolaeth ill dau eu tanategu gan gynlluniau ariannol a oedd yn dynodi cost modelau gwasanaeth newydd gyda rhagolygon hyd

at fis Mawrth 2021. Mae cynlluniau ariannol wedi cael eu haddasu a'u diweddaru ers hynny i adlewyrchu prosesau mwy manwl ar gyfer cynllunio'r galw a chapasiti. (Rydym yn nodi ein manylion am gynlluniau ariannol ym **mharagraffau 62 i 68)**.

89 Mae cynlluniau'r Ymddiriedolaeth yn amlygu cyfyngiadau ar le ffisegol ar safle Canolfan Ganser Felindre. Mae lle ffisegol cyfyngedig yn risg hirsefydlog ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ond mae'r mater yn cael ei ddwysáu gan ofynion cadw pellter cymdeithasol a chanllawiau atal a rheoli heintiau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n archwilio opsiynau i gynyddu i'r eithaf y capasiti yng Nghanolfan Ganser Felindre ac ar draws lleoliadau allgymorth, er enghraifft trwy estyn diwrnodau/oriau, ailgyflunio ystâd Canolfan Ganser Felindre, cynyddu'r defnydd o staff asiantaeth. Mae Canolfan Ganser Felindre hefyd wrthi'n archwilio ystod o opsiynau gyda byrddau iechyd a darparwyr trydydd parti i gynyddu capasiti i'r eithaf a gwneud gwasanaethau'n gydnerth dros y tymor canolig a hir. Mae'r opsiynau'n cynnwys ehangu Uned Symudol Tenovus i ddarparu SACT, ehangu'r gwasanaeth gofal cartref SACT a chynnydd mewn capasiti radiotherapi mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a'r sector annibynnol.

90 Os bydd y galw am wasanaethau oncoleg acíwt yn cynyddu uwchlaw'r lefelau disgwyliedig, bydd Canolfan Ganser Felindre'n rhoi ei chynllun chwyddo capasiti ar waith. Ar ddechrau'r pandemig, cafodd yr uned cleifion mewnol ac asesu yng Nghanolfan Ganser Felindre ei hehangu, gan gynyddu nifer y gwelyau a oedd ar gael. Hyd yma, nid yw'r galw disgwyliedig wedi dod yn ffaith. Fodd bynnag, rydym yn deall y gallai fod risg o ran staffio pe bai'r capasiti'n cael ei ddefnyddio'n llawn o ganlyniad i gynnydd yng nghyfradd heintio COVID-19. Mae'r trefniadau'n cael eu hadolygu'n barhaus i alluogi Canolfan Ganser Felindre i ddatblygu opsiynau darparu gwasanaethau y gall eu cymhwyso i amryw senarios.

91 Ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru, mae llacio'r cyfyngiadau symud wedi golygu nad yw rhai lleoliadau dros dro a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig ar gael mwyach wrth i sefydliadau ailagor gwasanaethau. Ar ben hynny, gallai lleoliadau presennol Gwasanaeth Gwaed Cymru barhau i fod yn anaddas lle nad ydynt yn ateb gofynion model gweithredu clinigol COVID-19. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adnabod safleoedd addas i'w defnyddio fel clinigau rhoi gwaed a rhannu cyfleusterau casglu gwaed symudol gyda sefydliadau eraill.

92 Er nad yw hynny wedi'i nodi'n benodol yn y cynlluniau gweithredol, mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli'r risg o amhariad, oedi neu analluu i ddarparu ystod lawn o driniaethau a gwasanaethau os na fydd Llywodraeth y DU yn llwyddo i ymrwymo i gytundeb ymadael gyda'r Undeb Ewropeaidd erbyn diwedd 2020. Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r risg i argaeledd Cyfarpar Diogelwch Personol, meddyginiaethau a chyflenwadau eraill yng nghyd-destun ymadawiad heb gytundeb.

93 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cofleidio datrysiadau digidol arloesol i barhau i ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol. Mae gwasanaethau'n gynyddol yn cael eu darparu'n rhithwir i leihau'r angen i

gleifion fynychu clinigau. Mae Canolfan Ganser Felindre wedi cyflwyno cydsyniad o bell ar gyfer triniaeth radiotherapi, llwybrau asesu rhithwir ar gyfer cleifion SACT a defnydd cynyddol o glinigau rhithwir (Mynychu yn Unrhyw Le). Mae Tîm Digidol yr Ymddiriedolaeth wedi profi cynnydd sylweddol yn y galw ar draws ei wasanaethau yn ystod yr ymateb cychwynnol i'r pandemig gyda hynny'n rhoi pwysau ar ei gapasiti. Yn dilyn hynny mae wedi adnabod cyfres o rolau a swyddogaethau a fydd yn hanfodol i barhau i ddarparu gwasanaethau a chanlyn arni â phrosiectau digidol allweddol yn ystod y cyfnod hwn.

94 Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu mecanweithiau i adnabod gwersi a ddysgwyd o'i hymateb i'r pandemig. Bydd gwersi'n goleuo cynlluniau ar gyfer gweddill y flwyddyn ac unrhyw gynnydd posibl yng nghyfraddau heintio COVID-19. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig fel rhan o'i Chynllun Gweithredol ar gyfer chwarter dau, i ystyried a yw'r blaenoriaethau a gweithgareddau i'w cyflawni'n dal yn berthnasol o ystyried effaith arwyddocaol COVID-19.

## Monitro'r modd y cyflawnir y cynllun

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn ei chynlluniau gweithredol

95 Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, cafodd trefniadau llywodraethu arferol yr Ymddiriedolaeth eu diwygio, gyda'r Bwrdd yn goruchwylio cynnydd yn erbyn y cynllun ymateb a chynlluniau cysylltiedig. Mae'r Bwrdd wedi parhau i gael ei adroddiad safonol ar berfformiad, sy'n nodi'n glir ble y mae COVID-19 wedi effeithio ar berfformiad. Roedd yr adroddiad ar berfformiad ym mis Gorffennaf 2020 yn cynnwys gwelliant sylweddol yn y disgrifiad o resymau sylfaenol lle nad yw perfformiad ar y trywydd iawn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio i ddiweddaru a gwella'i fframwaith rheoli perfformiad.

96 Yn ein hasesiad strwythuredig blaenorol, fe wnaethom argymell y dylai'r Bwrdd gytuno ar yr wybodaeth y mae'i hangen arno i gefnogi ei waith i graffu ar gynnydd a wnaed i gyflawni'r holl flaenoriaethau (a chamau gweithredu ategol) a nodir yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dangos bod cynnydd ar y cyfan o ran cyflawni'r amcanion strategol trosfwaol a chanlyniadau allweddol ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed. Rhoddwyd offeryn tracio newydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar waith yn 2020 a chafodd y Bwrdd adroddiadau arno yng nghyfarfodydd y Bwrdd ym mis Ionawr a mis Chwefror. Mae offeryn tracio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn darparu crynodeb da o amcanion, canlyniadau yn ystod y flwyddyn, cynnydd a wnaed hyd yma, statws ar y cyfan a risgiau allweddol. Gallai'r offeryn tracio gael ei wella trwy gynnwys yr effaith a gafodd y camau gweithredu ar gyflawni amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth.

97 Mae cynllun chwarter dau yn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu a nodir yng nghynllun chwarter un. Defnyddir dull sgorio Coch, Oren, Gwyrdd, sy'n debyg i'r dull ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig, i dracio cynnydd y cynllun gweithredol. Mae'r sgôr Coch, Oren, Gwyrdd yn gwneud y cynnydd ar y cyfan yn hawdd i'w weld, ond nid oes unrhyw wybodaeth am effaith y cam gweithredu a gymerwyd.

98 Canfu ein harsylwadau ar gyfarfodydd y Bwrdd fod papurau diweddaru niferus ar COVID-19 wedi cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020. Er bod papurau diweddaru'n darparu manylion a sicrwydd ynghylch sawl agwedd ar ymateb yr Ymddiriedolaeth, ni chafodd y Bwrdd grynodeb a oedd yn dwyn ynghyd y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r camau gweithredu a oedd wedi'u nodi yng nghynllun chwarter un nes bod y Bwrdd wedi cael cynllun chwarter dau i'w gymeradwyo. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai ychydig o gyfle oedd gan yr Ymddiriedolaeth i wneud hynny o ystyried yr amser byr rhwng cyflwyno cynllun chwarter un a datblygu a chyflwyno cynllun chwarter dau.

99 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau i'r Bwrdd fonitro a chraffu ar gynnydd yn erbyn cynllun chwarter dau. Ym mis Medi 2020, bydd y Bwrdd yn cael adroddiad ar y cynnydd yn erbyn y cynllun. Wrth edrych tua'r dyfodol, (a bwrw y bydd y strwythur pwyllgorau newydd yn cael ei gymeradwyo) bydd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, Perfformiad a Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn craffu'n rheolaidd ar gynnydd yn erbyn cynlluniau chwarterol. Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod ag un cynllun gweithredol ar gyfer gweddill y flwyddyn. Bydd gwerthuso'r cynnydd yn erbyn cynllun chwarter 2 yn helpu i oleuo datblygiad y cynllun gweithredol ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.